Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r

# ystafell newyddion

## Haf 2023



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

# croeso

Haf 2023

## Croeso i rifyn yr Haf o gylchlythyr Awel y Môr

Gydag argymhelliad wedi'i gyhoeddi gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, rydym yn awr yn aros am benderfyniad ar ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, a rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud ym mis Medi.

Fodd bynnag, mae llawer o waith yn dal i gael ei wneud y tu ôl i'r llenni i sicrhau ein bod yn barod am gymeradwyaeth, gyda'r tîm yn paratoi cynlluniau cadwyn gyflenwi a sgiliau a chyflogaeth, yn ogystal â pharatoi ar gyfer gwaith i ymchwilio safle alltraeth yn nes at ddiwedd eleni. Hefyd, mae'r tîm yn paratoi ar gyfer ymchwiliadau manwl ar y safle alltraeth i helpu i gwblhau cynlluniau adeiladu, ac mae rhagor o wybodaeth amdanynt yn y cylchlythyr hwn.

Mae tîm y prosiect hefyd wedi bod yn crwydro, gan weithio i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr, gydag ymweliad ag Ysgol Tryfan ym Mangor.

Yn olaf, rydym wedi agor ein porth ymgysylltu â chyflenwyr i'r sawl a hoffai wybod mwy am y gadwyn gyflenwi drwy ein Rhaglen Tryloywder Ymgysylltu â Chyflenwyr (STEP) – ac mae manylion amdani i'w cael **ar-lein yma (www.awelymor.cymru/suppliers).**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch gysylltu â thîm y prosiect drwy'r wefan neu e-bost, gan ddefnyddio'r manylion a roddir ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.



Awel y Môr team

# Awel y Môr yn cynnal y digwyddiad cadwyn gyflenwi cyntaf yng ngogledd Cymru



Roedd dros 120 o fusnesau yn bresennol yn y Diwrnod Ymgysylltu â Chyflenwyr cyntaf ar gyfer prosiect fferm wynt alltraeth Awel y Môr, a gynhaliwyd yn Venue Cymru yn Llandudno ym mis Ebrill.

Cyfarfu cynrychiolwyr cwmnïau o ogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr a thu hwnt i glywed am ddiweddariadau allweddol am y prosiect gan y tîm. Roedd y diwrnod yn cynnwys cyfleoedd i siarad â staff prosiect a technegol RWE, gyda thrafodaethau ar heriau arloesi, cyfleoedd i gyflwyno datrysiadau'r cwmni, sesiynau rhwydweithio a gofod i rannu syniadau a fydd yn helpu RWE a thîm datblygu prosiect Awel y Môr i gynyddu buddiannau i'r economi leol.

Hefyd lansiodd y prosiect ei blatfform ymgysylltu â chyflenwyr i alluogi busnesau i gofrestru, ac sydd hefyd yn rhan o'r Rhaglen Tryloywder Ymgysylltu â Chyflenwyr (STEP).

Buddsoddodd chwaer brosiect Awel y Môr, Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr, £90m mewn busnesau Cymreig a chrëwyd 700 o swyddi yn ystod y gwaith adeiladu. Hefyd creodd Gwynt y Môr 100 o swyddi crefftus mwy tymor hir, ac a lenwyd yn bennaf gan bobl o ogledd Cymru, gyda llawer mwy'n gweithio ar weithrediadau a chynnal a chadw o Borthladd Mostyn.

Meddai Tamsyn Rowe, arweinydd prosiect Awel y Môr: "Bydd y sgyrsiau mae tîm y prosiect wedi'u cael ac a fydd yn parhau dros y misoedd nesaf â chyflenwyr yn werthfawr iawn wrth inni ymdrechu i sicrhau y bydd busnesau gogledd Cymru a thu hwnt yn elwa ar y diwydiant hwn sy'n tyfu.

"Fel y cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy mwyaf yng Nghymru, gyda 300 o staff mewn safleoedd ym Mhenfro, Mostyn, Dolgarrog a Baglan, mae gennym enw da fel cwmni heb ei debyg am fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

"Cafodd y rhaglen hon ar gyfer cyflenwyr ei sefydlu i alluogi ymgysylltu parhaus ar hyd a gadwn gyflenwi, o'r haen uchaf o gwmnïau i'r busnesau llai, mwy arbenigol – yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth RWE o alluoedd cyflenwyr, a chysylltu cwmnïau â staff allweddol y prosiect i roi arweiniad.

"Mi fuaswn yn annog unrhyw fusnes sy'n ystyried buddsoddi yn eu gallu mewn ynni gwynt alltraeth i gofrestru drwy ein gwefan."

Mae rhagor o wybodaeth am waith Awel y Môr â chyflenwyr, gan gynnwys manylion ar sut i fod yn rhan o'r fenter STEP **ar gael yma (www.awelymor.cymru/suppliers).**

Mae modd cofrestru â phrif borth caffael RWE ar gyfer cyflenwyr **yma hefyd (www.rwe.com/en/products-and-services/supplier-portal).**

# Digwyddiad sgiliau traws sector yn dod â chyflogwyr ynghyd

Gyda miloedd o swyddi i'w creu neu eu cadw yn ystod y gwaith o adeiladu Awel y Môr yn ogystal â channoedd yn rhagor yn ystod ei gweithredu, cynhaliodd tîm y prosiect weithdy sgiliau gyda bp ac EnBW, sydd hefyd â chynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth oddi ar arfordir y Gogledd.

Bu dwsinau o gyflogwyr yn trafod eu cynlluniau a pha gefnogaeth fyddai ei hangen gan y prosiectau i helpu i fanteisio'n llawn ar waith a fyddai ar gael drwy'r gadwyn gyflenwi, gyda Phrif Weinidog Cymru Mark Drakeford a'r Gweinidog Materion Gwledig a'r Trefnydd ac AS Gogledd Cymru, Lesley Griffiths, hefyd yn bresennol.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynrychioli cwmnïau sy'n gweithio mewn saernïo metelau, peirianneg sifil, paentio alltraeth, tirfesur ac ymgynghori, a mwy, gan adlewyrchu'r amrywiaeth eang o sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu a gweithredu fferm wynt alltraeth arloesol.

Meddai arweinydd sgiliau RWE yn y DU ac Iwerddon, Celia Anderson: "Roedd ymdeimlad dwfn o bwrpas yn yr ystafell, gyda phawb yn ymrwymo i gydweithio i sicrhau bod gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr yn elwa ar fuddiannau gwynt alltraeth, o'r camau datblygu cyntaf ymlaen i'r gwaith adeiladu a'r datgomisiynu yn y diwedd."

## Yr Arolygiaeth Gynllunio: Y Broses o Wneud Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu

Tua dwy flynedd

### Cyn ymgeisio:

Chwiliwch am wybodaeth yn y cyfryngau lleol ac mewn mannau cyhoeddus ger lleoliad y prosiect arfaethedig, fel eich llyfrgell. Bydd y datblygwr yn datblygu eu cynigion ac yn ymgynghori'n eang.

28 diwrnod

### Derbyn:

Mae gan yr arolygiaeth, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, 28 diwrnod i benderfynu a ydy'r cais yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i'r cam archwilio gan gynnwys a ydy'r datblygwr wedi ymgynghori digon.

Tua 4 mis

### Rhag-archwilio:

Gallwch chi nawr gofrestru fel parti sydd â diddordeb; byddwch chi'n cael gwybod am hynt y cais a chyfleoedd i gyflwyno eich achos chi. Bydd arolygwyr yn cynnal Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn llunio'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.




Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford yn nigwyddiad sgiliau'r prosiect, a gynhaliwyd yn Venue Cymru

rydym yma

6 mis

## Archwilio:

Gallwch chi nawr anfon eich sylwadau ysgrifenedig. Gallwch wneud cais i siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus. Mae gan yr arolygiaeth chwe mis i gynnal yr archwiliad.

6 mis


## Penderfyniad:

Bydd yr arolygiaeth yn cyhoeddi argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn dri mis arall i gyhoeddi penderfyniad ynghylch y cynnig.

6 wythnos

## Ar ôl y penderfyniad:

Mae cyfle i herio'r penderfyniad yn gyfreithiol.




# Trwydded forol wedi'i dyfarnu i ymgyrch ymchwilio safleoedd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dyfarnu trwydded forol i dîm prosiect Awel y Môr ar gyfer ymgyrch ymchwilio safleoedd alltraeth.

Ymgeisiodd tîm prosiect Awel y Môr am y drwydded forol i gymryd samplau o dyllau turio, gyda'r canlyniadau'n dylanwadu ar drefniant terfynol y tyrbinau.

Caeodd yr ymgynghoriad cyhoeddus, a hysbysebwyd yn y Daily Post, ddydd Gwener 23 Mehefin gyda CNC yn ystyried yr ymatebion fel rhan o'i broses benderfynu.

Gan fod daeareg rhannau helaeth o Fae Lerpwl, fel arfordir gogledd Cymru, yn ôl-rewlifol, mae amodau'r creigwely o dan wely'r môr yn cynnwys amrywiaeth o greigiau gwahanol, gyda chymysgedd cymhleth o haenau caletach a meddalach ar hyd y safle.

Mae hyn yn golygu y gall y dyfnderoedd sy'n rhaid eu cyrraedd i sicrhau sefydlogrwydd y tyrbinau amrywio.

Meddai Jo Pickard, uwch reolwr cydsyniadau Awel y Môr: "Rydym yn falch iawn bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud y penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded forol hon.

"Gallai gwaith fel rhan o'r ymchwiliad i'r safleoedd gychwyn yn ddiweddarach eleni, wrth inni fynd ati i gwblhau'r cynlluniau ar gyfer adeiladu, a fydd yn eu tro'n amodol ar sicrhau gorchymyn cydsyniad datblygu.

"Mae daeareg arfordir gogledd Cymru mor ddiddorol ac mae'r ymgyrch hon yn dangos yr holl amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu prosiectau fel hwn."

# Ysgol Tryfan Ymweliad Ysgol

Cafodd myfyrwyr yn Ysgol Tryfan ym Mangor gyfle'n ddiweddar i gymryd rhan mewn bore o ddosbarthiadau ar ynni adnewyddadwy, gyda RWE yn bresennol i roi cyfle iddynt i ddylunio eu tyrbin gwynt eu hunain.

Bu pedwar dosbarth ym mlwyddyn 7 yn cymryd rhan fel grwpiau bach i ddylunio ac adeiladu eu llafnau eu hunain gyda chardfwrdd a Blu Tack.

Cafodd y rhain wedyn eu gosod ar rig profi a'u troi gyda gwyntyll i efelychu gwynt, gyda'r dyluniadau buddugol yn codi pwysau 50g dros fetr mewn llai na 15 munud.



Athro yn Ysgol Tryfan gyda model o dyrbin

# Penodi uwch reolwr cydsyniadau newydd


Yn ddiweddar penododd fferm wynt alltraeth Awel y Môr uwch reolwr cydsyniadau newydd i arwain y prosiect drwy'r cam adeiladu a thu hwnt.

Mae Jo Pickard yn Amgylcheddwraig Siartredig sydd â gradd Meistr mewn Asesiadau o Effeithiau Amgylcheddol o Brifysgol Aberystwyth a chyn hyn bu'n gweithio i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn.


Mae hi'n byw yn Swydd Gaerloyw, ac mae ganddi deulu yn Llandudno.


Meddai Jo: "Gan fy mod wedi astudio a gweithio yng Nghymru am y rhan fwyaf o fy ngyrfa rwyf wrth fy modd yn cael y cyfle, os caniateir y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, i arwain un o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mwyaf Cymru o'r cam cynllunio i'w wireddu."


Jo Pickard



# Cwmni peirianyddol o Lannau Mersi yn sicrhau rôl flaenllaw yn y Gynghrair Ynni Alltraeth



Mae'r cwmni o Widnes, Hutchinson Engineering , wedi ymuno â'r Gynghrair Ynni Alltraeth (OEA) fel Aelod Cyswllt cyntaf y corff wedi derbyn cyfrifoldeb fel arweinydd pwnc ar gyfer twf y gadwyn gyflenwi.

Gyda sawl prosiect seilwaith pwysig ar arfordir gogledd Cymru, gan gynnwys Awel y Môr, mae ynni gwynt alltraeth yn debygol o dyfu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Meddai Steve Adams, rheolwr gyfarwyddwr gyda Hutchinson: "Drwy ddefnyddio ein profiad o gyflenwi'r sector ynni gwynt alltraeth ac ynni carbon isel ehangach, rydym yn awyddus i hyrwyddo'r gadwyn gyflenwi ranbarthol, i annog datblygu, rhwydweithio, a chydweithio, ac i helpu busnesau yn y rhanbarth i ganfod a manteisio ar gyfleoedd, i ddeall anghenion y sector, ac i ddatblygu gallu busnesau a mentrau bach a chanolig y rhanbarth."

Mae'r OEA yn glwstwr cadwyn gyflenwi sy'n cael ei hyrwyddo gan RWE ac a sefydlwyd fel rhan o Fargen y Sector Gwynt Alltraeth.

Datganiad cenhadaeth yr OEA yw tynnu sylw at ogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr fel arweinyddion wrth symud tuag at ynni alltraeth a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwynt alltraeth a sectorau ynni carbon isel eraill.

Am ragor o wybodaeth am yr OEA ewch i **www.offshoreenergyalliance.co.uk**